YR EGLWYS YNG NGHYMRU THE CHURCH IN WALES

CORFF CYNRYCHIOLWYR YR EGLWYS YNG NGHYMRU
THE REPRESENTATIVE BODY OF THE CHURCH IN WALES

# POLISI EGLWYSI SEGUR A GRWPIAU CYMUNEDOL

## Cyflwyniad

O bryd i'w gilydd, bydd eglwys yn cael ei dynodi yn eglwys segur. Y rheswm am hyn yw bod y gynulleidfa leol, drwy'r Cyngor Plwyf[1], wedi penderfynu nad oes modd cynnal yr eglwys honno mwyach. Yn aml, mae hyn oherwydd nad oes modd talu'r costau atgyweirio neu efallai nad yw'r eglwys bellach yn bodloni anghenion y gynulleidfa addoli.

Weithiau bydd grŵp cymunedol lleol yn awyddus i gaffael yr eglwys segur a'i hachub ar gyfer y dyfodol. Mae'r polisi hwn yn nodi sut y bydd Corff y Cynrychiolwyr yn ymateb i geisiadau o'r fath yn y dyfodol.

Grŵp cymunedol lleol yw sefydliad neu elusen nid-er-elw sydd am hyrwyddo gweithgaredd neu wasanaethau cymunedol lleol, hyrwyddo treftadaeth leol neu alluogi mynediad i'r cyhoedd i adeiladau.

## Polisi Cyffredinol

Bydd Corff y Cynrychiolwyr yn ceisio cydweithio â grwpiau cymunedol lleol i drosglwyddo eglwysi segur i'w gofal cyn belled â bod y Corff yn fodlon bod y trosglwyddiad yn cynrychioli'r gwerth gorau i'r Eglwys yng Nghymru.

## Dull manwl

Wrth ystyried cais gan grŵp cymunedol lleol i gaffael eglwys segur, bydd Corff y Cynrychiolwyr yn cymryd y camau canlynol:

1) Gofyn am eglurhad o amcanion y grŵp cymunedol lleol er mwyn sicrhau ei fod yn bodloni'r diffiniad uchod.
2) Cael mynegiant ffurfiol o ddiddordeb gan y grŵp Cymunedol ar ffurf datganiad yn nodi eu dibenion a'u bwriadau a'u dyheadau ar gyfer yr eiddo. Bydd Corff y Cynrychiolwyr yn ystyried

[1] *Defnyddir y term "Cyngor Plwyf" yn y ddogfen hon i ddisgrifio corff ymddiriedolwyr yr eglwys leol sy'n gyfrifol am reoli'r neuadd. Gall y cyrff hyn gael eu hadnabod hefyd fel Cyngor Ardal Weinidogaeth, Cyngor Ardal Gweinidogaeth Leol, Cyngor Bywoliaeth Reithorol, Cynhadledd Ardal Genhadaeth, neu unrhyw derm arall a ddynodir gan bolisïau esgobaethol.*

gydag Esgob yr Esgobaeth dan sylw a ddylid, mewn egwyddor, ystyried cynigion y grŵp ymhellach.

3) Gofyn i'r plwyf/gynulleidfa leol am eu barn ar y defnydd arfaethedig ac a oes ganddynt unrhyw fuddiant penodol i gadw i ddefnyddio'r adeilad yng nghynigion y grŵp.

4) Os yw'r Plwyf a'r Esgobaeth yn fodlon â'r cynnig mewn egwyddor, bydd trafodaethau pellach yn cael eu cynnal. Fel arall, rhoddir yr eiddo ar werth yn dilyn cyngor gan asiant.

5) Trafod y math o ddaliadaeth mae'r grŵp yn ei geisio h.y. ar les neu bryniant rhydd-ddaliadol.

6) Canfod gwerth yr eiddo ar y farchnad gan syrfëwr siartredig ar gyfer:
   a) gwerthu'r eglwys fel rhydd-ddaliad yn amodol ar gyfamodau safonol yr Eglwys yng Nghymru a gan adlewyrchu unrhyw botensial cynllunio ar gyfer defnydd amgen.
   b) gwerth rhentu ar y farchnad am brydles atgyweirio'r safle yn llawn gyda neu heb gyfyngiadau ar ddefnydd cymunedol.

   Gwerth ariannol gorau'r eiddo fydd man cychwyn trafodaethau yn seiliedig ar gyngor yr asiant.

7) Bydd gwerth yr adeilad yn cael ei rannu â'r grŵp Cymunedol fel sail ar gyfer eu cynigion.

8) Bydd y Corff yn rhoi cyfnod clir o 12 mis i'r grŵp gyflwyno cynnig cadarn ar gyfer prynu neu brydlesu'r safle.

   Os gellir dangos bod manteision clir yn y defnydd arfaethedig i genhadaeth a gweinidogaeth yr Eglwys yng Nghymru ac y gellir diogelu hynny yn y tymor hir, yn ôl ei ddisgresiwn, gall Corff y Cynrychiolwyr gytuno ar rywfaint o ostyngiad i'r gwerth ariannol gorau.

9) Bydd Corff y Cynrychiolwyr yn talu costau atgyweirio ac yswiriant y safle yn ystod y cyfnod hwn. Os bydd y grŵp Cymunedol yn cael amser pellach y tu hwnt i 12 mis i gwblhau eu cais, bydd Corff y Cynrychiolwyr yn disgwyl rhywfaint o gyfraniad ariannol gan y grŵp cymunedol tuag at gostau o'r fath yn y cyfamser.

Alex Glanville
Pennaeth y Gwasanaethau Eiddo
Yr Eglwys yng Nghymru
Chwefror 2023 v1.1